

Cylchlythyr Cenedlaethau'r Dyfodol Mawrth 2022



Rhagair



Fel Cenedl Noddfa, rhaid i Gymru sicrhau bod ffoaduriaid sy'n cyrraedd o bob rhan o'r byd yn cael croeso.

Y mis hwn mae goresgyniad milwrol Wcráin wedi gweld golygfeydd yn datblygu yn Ewrop sydd wedi syfrdanu a brawychu'r byd. Rydym yn dyst i argyfwng dyngarol sy'n gwaethygu'n ddyddiol.

Mae delweddau o deuluoedd o Wcráin yn ceisio'n daer i gyrraedd diogelwch, gan gymryd dim ond yr hyn y gallant ei gario wrth iddynt wneud eu ffordd i ddyfodol cwbl anhysbys yn wirioneddol dorcalonnus. Ynghyd â'r awydd llethol i helpu'r bobl hyn, mae'r digwyddiadau ofnadwy yn Wcráin hefyd yn codi'r cwestiwn o sut yr ydym yn trin ffoaduriaid rhyfel. Mae'n fater dinistriol sy'n effeithio ar genedlaethau'r presennol a'r dyfodol yn fyd-eang ac mae'n hollbwysig ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu'r rhai sydd wedi'u rhoi mewn sefyllfa mor beryglus.

Rwy'n llwyr gefnogi pecyn cymorth ariannol a dyngarol Llywodraeth Cymru gwerth £4 miliwn i Wcráin. Rwy'n annog Llywodraeth y DU i sicrhau bod pobl Wcráin sy'n ffoi yn gweld y Deyrnas Unedig fel hafan ddiogel lle cânt eu croesawu, ni waeth a oes ganddynt deulu yma yn y DU eisoes ai peidio.

Rwyf hefyd yn adleisio galwad Filippo Grandi, Uchel Gomisiynydd Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig, am fynediad i ddiogelwch i bawb, waeth beth fo'u statws cyfreithiol, cenedligrwydd a hil yn ogystal â mynediad i loches i'r rhai sydd am geisio lloches.

Fel Cenedl Noddfa, mae angen i Gymru sicrhau bod ffoaduriaid sy'n cyrraedd yma o bob rhan o'r byd yn ein gweld ni fel cenedl groesawgar ac yn un sy'n eu helpu yn ymarferol i ail-adeiladu bywyd yma.

Mae gan Gymru, fel y byd i gyd, ran bwysig i'w chwarae wrth gydnabod pobl sydd wedi'u dadleoli fel ffoaduriaid aceirioli dros gynnig yr un amddiffyniadau iddynt. Mae gennym nod i fod yn genedl sy'n [Gyfrifol yn Fyd-eang](#) o dan Ddeddf Llesiant Cenedl-aethau'r Dyfodol, a thra bod polisi lloches yn perthyn i Lywodraeth y DU, gall ein cenedl ddangos ein hymrwymiad i'r nod hwnnw.

Mae llawer o gyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill ledled Cymru eisoes wedi cymryd camau i ddangos eu cydsafiad ag Wcráin ac fel unigolion mae llawer y gallwn ei wneud hefyd megis cefnogi apêl Wcráin y Pwyllgor Argyfwng Trychinebau (DEC).

Mae'r DEC wedi tynnu sylw at y ffaith bod o leiaf 3 miliwn o bobl wedi ffoi o'u cartrefi i ddi-anc rhag y gwrthdaro yn Wcráin gydag ymladd trwm, sielio a streiciau awyr ledled y wlad wedi cael canlyniadau dinistriol i sifiliaid.

Mae elusennau DEC a'u partneriaid lleol yn Wcráin ac mewn gwledydd cyfagos yn darparu bwyd, dŵr, lloches a chymorth meddygol.



Ers lansio'r apêl, mae Cymru wedi codi dros £9.2 miliwn (a £200 miliwn ar lefel y DU). Mae hwn yn gamp mor anhygoel ac yn dangos pa mor angerddol y mae'r cyhoedd yng Nghymru yn teimlo am gefnogi Wcráin. O ganlyniad i'r gefnogaeth hon mae elusennau sy'n aelodau o DEC ar lawr gwlad yn sefydlu canolfannau i gefnogi ffoaduriaid, diwallu eu hanghenion sylfaenol, a chefnogi eu hailsefydlu.

I ddarllen mwy am eu hapêl a sut y gallwch gefnogi'r gwaith ewch i wefan DEC [yma](#).

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Democracy Box yn lansio Maniffesto ar gyfer y Dyfodol.



“Mae ein lleisiau fel pobl ifanc mor bwysig oherwydd ni yw'r dyfodol, felly dylem godi llais am faterion er mwyn llunio'r dyfodol gorau i ni ei etifeddu.”

Mae pobl ifanc yng Nghymru wedi anfon neges gref cyn yr etholiadau lleol eleni o'r hyn sydd ei angen:

- Gwell mynediad at wasanaethau iechyd meddwl
- Teithio gwyrdd fforddiadwy a
- Gweithredu i fynd i'r afael ag anghyfiawnder hinsawdd a'r argyfwng natur.

Gyda phum wythnos yn unig nes bod Cymru'n pleidleisio, mae fy swyddfa wedi lansio [Maniffesto ar gyfer y Dyfodol: Ein Hetholiadau Lleol](#), sydd wedi'i ddatblygu gyda phobl ifanc ledled Cymru.

Mewn partneriaeth ag [Omidaze Productions](#), mae fy nhîm yn datblygu prosiect [The Democracy Box](#) sy'n archwilio sut y gall pobl ifanc hysbysu ac ymgysylltu'n greadigol â phob cenhedlaeth am ein democratiaeth. Fel rhan o'r gwaith, a chanllawiau'r Ddeddf y dylai cyrff cyhoeddus gan gynnwys Llywodraeth Cymru gynnwys amrywiaeth o leisiau yn eu penderfyniadau, rydym wedi bod yn cydweithio â chyd-grewyr ifanc The Democracy Box, sef grŵp o bobl ifanc 16-26 oed, wedi ei eni neu sy'n byw yng Nghymru.

Mae'r maniffesto newydd yn cynnwys 52 o argymhellion allweddol – sy'n cynnig pecyn beiddgar o fesurau i fynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur mewn ffordd sydd hefyd yn hybu llesiant ac yn lleddfu'r argyfwng costau byw. Mae argymhellion wedi'u gwneud gyda chymorth pobl ifanc, a bydd llawer ohonynt yn pleidleisio am y tro cyntaf ar Fai y Sed.

Mae argymhellion yn cynnwys:

- Buddsoddi ym myd natur a blaenoriaethu cyllid a chefnogaeth ar gyfer adfer cynefinoedd a bywyd gwyllt ar raddfa fawr, creu a chysylltedd.
- Cyflwyno trafndiaeth gyhoeddus am ddim i bobl ifanc yng Nghymru.
- Cefnogi mesurau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, gan gynnwys ôl-osod stoc tai lleol.
- Cefnogi mentrau anfeddygol a elwir yn 'ragnodi cymdeithasol' (e.e. chwaraeon, gwirfoddoli, gweithgareddau diwylliannol) i hybu iechyd a llesiant mewn cymunedau.
- Gweithredu yn unol ag egwyddorion Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru a dangos sut y bydd gwasanaethau allweddol lleol a darpariaethau megis trafndiaeth, addysg a thai yn cefnogi'r weledigaeth hon.



Mae'n hanfodol bod pobl ifanc yn cael cyfle i lunio eu dyfodol, bod gwleidyddion yn gwrando arnynt ac yn defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i greu'r Gymru yr ydym i gyd ei heisiau. Mae pobl yng Nghymru ar hyn o bryd yn wynebu nifer enfawr o heriau gan gynnwys costau byw cynyddol, lefelau uchel o incwm ac anghydraddoldeb iechyd, tlodi tanwydd, iechyd meddwl ac ynysu cymdeithasol.

Nawryw'r amser i awdurdodau lleol fynd i'r afael â'r heriau hyn mewn ffyrdd sy'n dod â manteision llesiant i bawb. Er enghraifft, gwneud mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus yn haws, buddsoddi mewn cartrefi sy'n defnyddio tanwydd yn effeithlon, gwella mynediad i fannau gwyrdd. Gyda llunio polisiau call, gellir mynd i'r afael â phroblemau'r presennol a'r dyfodol ar yr un pryd, ac mae gwneud y cysylltiadau hyn yn hollbwysig.

Mae'r golygfeydd trasig yn yr Wcráin a'r argyfyngau hinsawdd a natur parhaus yn darparu cefndir anodd i'r etholiadau hyn ond yn ein hatgoffa o'r rôl y gall ein cymunedau a'n sefydliadau democrataidd ei chwarae wrth ymdrechu am fyd gwell i genedlaethau'r dyfodol.

Mae cyfres podlediadau Democracy Box yn un o sawl ffordd y mae'r cyd-grewyr ifanc yn ail-ddweud stori ein democratiaeth yn greadigol fel bod pawb yn gallu deall a chymryd rhan.

Gallwch wrando ar y ddwy gyntaf o chwe phennod podlediadau Democracy Box newydd sbon sydd wedi'u creu drwy'r bartneriaeth newydd hon a chanolbwyntio'n benodol ar gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf. Mae'r ddwy gyntaf o chwe phennod ddwyieithog yn edrych ymlaen at etholiadau lleol Mai 5ed ac maent ar gael ar Apple a Spotify.

Dan ofal cyd-grewyr The Democracy Box, Lloyd Mann, 17 (o Drefynwy), Olivia Winter, 17 (Dinas Powys), Katherine Rees, 24 (Abertawe) a Rhys Alexander, 18 (Caerdydd), ac mewn sgwrs ag aelodau ifanc o fy nhîm maent yn archwilio eu dealltwriaeth o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, beth yw manifestio a phwysigrwydd pleidleisio.

Mae'r bartneriaeth hefyd wedi comisiynu tri thrac cerddoriaeth newydd a fideos gan y cyd-grewyr ifanc sy'n dathlu ac yn egluro'r Ddeddf. Ysgrifennwyd a pherfformiwyd y cyntaf o'r rhain [Where Will We Be](#), gan Saskia Pay, 27, o Fro Morgannwg, a Blank Face aka Josh Whyte, 24 o Gaerdydd.

"Mae ein lleisiau fel pobl ifanc mor bwysig oherwydd ni yw'r dyfodol, felly dylem godi llais am faterion er mwyn llunio'r dyfodol gorau i ni ei etifeddu.

"Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn hanfodol i sicrhau bod y rhais sy'n gwneud penderfyniadau yn paratoui'r llwybr gorau posibl i ni ei gymryd drosodd. Cymru yw'r unig wlad yn y byd sydd â'r ddeddf hon yn ei lle sy'n fy ngwneud yn falch o fod yn Gymraes!

"Fe fydda' i'n gallu pleidleisio am y tro cyntaf yn yr etholiadau lleol sydd i ddod ac mae'n hollbwysig bod pobl ifanc fel fi yn cyrraedd y polau piniwn ac yn dweud ein dweud oherwydd dyma'r ffordd fwyaf uniongyrchol o leisio'ch barn."



Mudiad Dros Newid



Y llynedd lansiwyd Adran ‘[Mudiad dros Newid](#)’ ein cylchlythyr i dynnu sylw at brosiectau a sefydliadau ledled Cymru sy’n cyfrannu at gyflawni’r Nodau Llesiant ac yn ymgyrchu’n gyffredinol ac yn gweithredu dros newid tuag at Gymru fwy cynaliadwy.

Y mis hwn bu fy nhîm yn siarad â Casia Wiliam, Swyddog Cyfathrebu Cymunedol [GwyrddNi](#), am eu gwaith yng Ngwynedd ar newid hinsawdd.



CREU • CYMUNEDAU • GWYRDD
GWYRDDNI
COMMUNITY • CLIMATE • ACTION



“Petai ni’n gweithio mewn ffordd wahanol, beth fyddai posib ei wneud mewn cymunedau er mwyn gweithredu yn lleol ar newid hinsawdd?”

Dyma’r cwestiwn oedd wrth wraidd sefydlu GwyrddNi. A dyma ddaeth a chwe menter gymdeithasol yng Ngwynedd ynghŷd i wneud cais am arian gan y Loteri Genedlaethol i wireddu’r syniad o greu mudiad gweithredu ar newid hinsawdd newydd sbon yng Ngwynedd.

Y chwe menter gymdeithasol dan sylw ydi: Datblygiadau Egni Gwledig (DEG) yng Nghaernarfon, Ynni Llŷn ym Mhen Llŷn, Cwmni Bro ym Mro Ffestiniog, Partneriaeth Ogwen yn Nyffryn Ogwen, Yr Orsaf/Siop Griffiths yn Nyffryn Nantlle a Cyd Ynni yn Nyffryn Peris, gyda staff GwyrddNi yn cael eu cyflogi gan DEG.

Y nod clir oedd sefydlu mudiad fyddai’n dod â phobl ynghŷd yn y bum ardal (yr uchod ac eithrio Caernarfon), i ddysgu am newid hinsawdd ac ystod eang o ffyrdd i ymateb a gweithredu yn wyneb yr her hon, cyn trafod a phenderfynu ar y cyd ar Gynllun Gweithredu Hinsawdd leol. Ail ran y gwaith fydd gweithredu’r cynllun a gwireddu syniadau’r cymunedau.

Wedi llawer o ymchwil i mewn i’r gwahanol ffyrdd posib o wneud hyn, penderfynodd Hwyluswyr Cymunedol GwyrddNi mai Cynulliadau Cymunedol yw’r fforwm gorau ar gyfer gweithredu hyn yn ein cymunedau ni yma yng Ngwynedd, ardaloedd sydd â thraddodiad o ddod ynghŷd boed hynny mewn clwb rygbi, mewn gig, mewn capel, ar gyfer bore coffi neu ar daith gerdded.





Ganol mis Mawrth eleni bydd gwahoddiad swyddogol i gofrestru diddordeb mewn ymuno â Chynulliad Cymunedol yn cael ei anfon at holl drigolion yr ardaloedd hyn, a bydd gan bobl (dros 16 oed) dan ddydd Llun **18 Ebrill 2022** i gofrestru. Gallwch wneud hynny ar wefan GwyrddNi hefyd, felly os ydych chi yn byw yn un o ardaloedd GwyrddNi ewch draw i weld: www.gwyrddni.cymru/cymryd-rhan.

You can also do this on the GwyrddNi website, so if you live in a GwyrddNi area visit: <https://www.gwyrddni.cymru/en/taking-part/>

Ar ôl y dyddiad cau bydd 50 person yn cael eu dethol ym mhob ardal i fynychu'r cynulliad i gynrychioli'r gymuned ehangach, er mwyn dechrau ar y gwaith cyffrous o gyd-greu Cynllun Gweithredu Hinsawdd er mwyn sicrhau dyfodol iach a hapus i'r cymunedau. Mae pob ymdrech yn cael ei wneud gan griw GwyrddNi i sicrhau bod y 50 yn adlewyrchu'r ardal o ran elfennau megis oedran, rhyw, ethnigrwydd, cefndir addysg a barn am newid hinsawdd. Mae hwn yn gyfle i bawb - nid dim ond pobl sy'n poeni am newid hinsawdd. Er mwyn iddo weithio mae angen cefnogaeth a llais y gymuned gyfan.

Yna, wrth glywed gan siaradwyr gwâdd o bob math, rhai yn lleol a rhai o bellach i ffwrdd, ac o amryw faes a diwydiant, bydd cyfle i'r 50 ddechrau meddwl a thrafod pa fath o weithgareddau, cynlluniau neu brosiectau i weithredu ar newid hinsawdd fydrai weithio yn eu hardal nhw.

Bydd nodau ac uchelgais Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth galon y cwbl, gan warchod yr hyn sydd yn bwysig i bawb sy'n byw yn y cymunedau; bydd y cynlluniau yn saff o sicrhau Cymru iachach a chyfrifol yn fyd-eang (wrth leihau allyriadau carbon), Cymru gydnherth a Chymru o gymunedau cydlynus (bydd ein gwaith yn cryfhau'r cymunedau wrth ddod â phobl ynghyd), Cymru lewyrchus (swyddi gwyrdd, lleol, cynaliadwy), Cymru sy'n fwy cyfartal (bydd gan bawb lais yn y broses hon a bydd ystyriaeth i bawb o'r gymuned wrth greu'r cynlluniau) a Chymru â diwylliant bywiog ble mae'r Gymraeg yn ffynnu (bydd dyfodol llewyrchus i'r genhedlaeth nesaf yn y cadarnleoedd Cymraeg hyn wrth weithredu yn lleol ar newid hinsawdd). Mae DEG eisoes wedi ennill nifer o wobrau am y modd y mae eu gwaith yn cwrdd â gofynion y ddeddf, gan gynnwys Gwobrau Academi Cynaliadwy a derbyn cymeradwyaeth uchel gan Wobrau Cynnal Cymru dair blynedd ar y trot.



Mae'n holl-bwysig nodi mai hwyluso'r gwaith mae GwyrddNi - rydyn ni yma i ddod â phobl at ei gilydd, i wneud y gwaith trefnu, i wneud y gwaith gweinyddola'r gwaith caib a rhaw, ond trigolion Pen Llŷn, Bro Ffestiniog, Dyffryn Nantlle, Dyffryn Ogwen a Dyffryn Peris fydd yn llwyr gyfrifol am gynnwys Cynllun Gweithredu Hinsawdd pob ardal.

Fel mae Nina Bentley, Hwylusydd GwyrddNi ym Mro Ffestiniog yn esbonio:

"Y peth pwysicaf yn hyn i gyd ydi llais a barn y cymunedau; mae GwyrddNi yma i gydlynnu a hwyluso ond pobl yr ardaloedd hyn fydd yn penderfynu gyda'i gilydd beth fasan nhw yn hoffi ei weld yn digwydd yn lleol i fynd i'r afael â newid hinsawdd, er mwyn sicrhau bod dyfodoli iach, ffyniannus, a chadarnhaol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol."

Am ragor o wybodaeth neu i gysylltu gyda chriw GwyrddNi ewch i www.gwyrddni.cymru neu i gofrestru diddordeb mewn ymuno â chynulliad yn eich ardal chi (Pen Llŷn, Bro Ffestiniog, Dyffryn Ogwen, Dyffryn Nantlle neu Dyffryn Peris) ewch i www.gwyrddni.cymru/cymryd-rhan a chofiwch eu dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol.

Cwrdd â'r Tîm

Bob mis byddwn yn cyhoeddi sesiwn holi-ac-ateb gydag aelod o'm tîm a fydd yn rhannu ei fewnwelediad i'w amser gyda fy Swyddfa. Y mis hwn, ein Prif Ysgogwr Newid gwych, Heledd Morgan, a ddechreuodd yn ôl yn 2017, sy'n cael ein sylw.



Pryd ddechreuoch chi gyda'r swyddfa a beth oedd y darn cyntaf o waith a wnaethoch yn eich rôl newydd?

Dechreuais weithio yn nhîm Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ym mis Ionawr 2017 – ar secondiad i ddechrau o fy rôl fel Rheolwr Partneriaethau gyda Chyngor Rhondda Cynon Taf. Roeddwn wedi bod yn eiriolwr angerddol dros y Ddeddf yn ei datblygiad ers amser maith, felly roedd dod i weithio yma yn gwireddu breuddwyd.

Yn fy rôl flaenorol, roeddwn yn gweithio ar yr asesiad llesiant cyntaf ar gyfer Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful pan ymunais â'r tîm, sy'n dasg unwaith bob pum mlynedd i helpu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddeall eu hardal a gosod amcanion llesiant a chymau a fydd yn cael y budd mwyaf. Felly, eithaf doniol oedd mynd o 'weithio ar lawr gwlad' i weithio gyda'r Comisiynydd a'r tîm i roi ei chyngor a'i hadborth ar asesiadau llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru!

Sut mae'r tîm wedi newid dros y blynyddoedd?

Mae cyfansoddiad ein tîm wedi newid llawer yn y pum mlynedd rydw i wedi bod yn rhan ohono. Fel tîm, rydym yn ceisio 'gweithredu yn ogystal â siarad' am y Ddeddf ym mhopeth a wnawn, felly rydym wedi cydweithio â llawer o sefydliadau eraill i groesawu mewn

secondiadau a lleoliadau gwaith. Er enghraifft, roedd ein [prosiect partneriaeth Y Gallu i Greu](#) yn cynnwys amrywiaeth o sefydliadau a ddaeth â phobl i'n tîm ar secondiad a oedd yn cynnig gwahanol safbwyntiau, gwybodaeth a rhwydweithiau.

Yn yr un modd, mae ein [Hacademi Arwain Cenedlaethau'r Dyfodol](#) yn rhoi cyfle i arweinwyr ifanc o amrywiaeth o sefydliadau a sectorau ddysgu mwy am y Ddeddf a'i chymhwyso i'w gwaith. Mae hyn wedi golygu bod ein tîm wedi ehangu a lleihau dros y blynyddoedd ac

rydym wedi croesawu llawer o wynebau newydd cyfeillgar, yn ogystal â dymuno'n dda i bobl wrth iddynt symud ymlaen a mynd ymlaen i ledaenu ysbryd y Ddeddf mewn mannau eraill! Mae'n un o'n cenadaethau i adeiladu mudiad ar gyfer newid ac mae gweithio gydag eraill yn ffordd gadarnhaol o wneud hynny.

Beth fu eich eiliad balchaf?

A dweud y gwir mae gormod o eiliadau balch i'w rhestru! O ddydd i ddydd, rwy'n wirioneddol falch o'r gwaith y mae ein tîm bach, ymroddedig ac angerddol yn ei wneud. Pan gyflwynwyd y Ddeddf yn 2015, dywedodd y Cenhedloedd Unedig "*Beth mae Cymru yn ei wneud heddiw, bydd y byd yn ei wneud yfory.*" Acrwyf mor falch ein bod yn derbyn diddordeb byd-eang gan Seland Newydd, yr Emiraethau Arabaidd Unedig, yr Almaen, y Ffindir, Awstralia, Gibraltar, yr Alban, UDA, Gweriniaeth Iwerddon... llawer, llawer o leoedd, yn y gwaith y rydym yn ei wneud yma yng Nghymru ac awydd i'w gopïo. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y DU yn mynd â Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy Dŷ'r Cyffredin. Gobeithio y bydd gan bob gwlad Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol rhyw ddydd.

Beth fu eich darn mwyaf o ddysgu yn eich gyrfa gyda'r swyddfa? Pa gyngor fydddech chi'n ei roi i eraill?

Rydw i wedi dysgu llawer ac yn parhau i ddysgu bron bob dydd yn ein tîm gan fy nghydweithwyr gwych yn ein sefydliad a'r bobl wych rydyn ni'n tynnu arnyn nhw i'n helpu ni y tu allan i'r tîm hefyd!

Mae'n debyg mai fy narn dysgu mwyaf yw ei fod i gyd yn gysylltiedig. Mor aml, rydym yn gweithio i'n harbenigeddau ein hunain ac ni allwn weld y darlun ehangach, tra bod ffyrdd y Ddeddf o weithio a'r nodau llesiant yn ceisio ein helpu i weld pethau o safbwyntiau gwahanol ac mewn ffordd fwy cyflawn. Mae gwneud un peth yn anochel yn cael sgil-ffaith (da neu ddrwg!) ar beth arall. Rydym yn ceisio dangos sut mae pobl wedi defnyddio'r Ddeddf i ehangu eu dealltwriaeth ac, yn aml iawn, wedi cyflawni pethau gwych y tu hwnt i'w bwriad gwreiddiol drwy wneud hynny! Mae'r Ddeddf yn gwneud i mi gamu y tu allan i fy nghylch cysur, y tu hwnt i'm gwybodaeth arferol ac rydym yn ceisio helpu pobl eraill i wneud yr un peth a dangos hyn yn y [cyngor](#) a roddwn a'r [astudiaethau achos](#) a gyhoeddir gennym.

Sut mae eich rôl wedi newid eich bywyd personol?

Rwyf bob amser wedi cyfrif fy hun fel rhywun sy'n poeni am yr amgylchedd, ond rwyf wedi dysgu cymaint mwy am effaith fy ngweithredoedd ers gweithio gyda'r Comisiynydd a'n tîm. Mae rhai enghreifftiau o'r newidiadau yr wyf wedi'u gwneud yn cynnwys: Nid wyf wedi bod yn berchen ar gar ers 18 mis bellach – rwy'n cerdded i bobman ac rwy'n ffodus i fyw mewn dinas sydd â chysylltiadau trafniadaeth gyhoeddus da. Os cawn gar newydd, cerbyd trydan fydd hwnnw. Yr wyf yn ystyriol iawn o'm pryniadau; er enghraifft, dwi'n dueddol o beidio â phrynu dillad neu ddodrefn newydd ac rwy'n siopa mewn siop dim gwastraff am fwyd er mwyn osgoi defnyddio pecynnau plastig lle bo modd. Rwyf hefyd yn ceisio bwyta ffrwythau a llysiau sydd yn eu tymor, rwyf wedi torri lawr ar fwyta cig ac yn ceisio prynu nwyddau Masnach Deg o ffynonellau moesegol. Rwyf wedi gwneud nifer o gyfnewidiadau gyda nwyddau colur a harddwch i geisio lleihau fy effaith ar yr amgylchedd ac, os byddaf yn prynu anrhegion, rwy'n ceisio sicrhau eu bod wedi'u gwneud yn lleol ac yn gynaliadwy. Rydyn ni i gyd yn gwneud ymdrech i brynu oddi wrth gwmnïau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a thegwch. Mae ein tîm cyfan yn rhannu straeon newyddion da ac yn cyfnewid awgrymiadau a chynghorion i helpu ein gilydd ac mae'n ffordd arall i ni geisio 'gweithredu yn ogystal â siarad' am y Ddeddf!

Un gair sy'n crynhoi eich amser hyd yma yn Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru:

Ysbrydoledig!

Cysylltwch â ni

Am ddal i fyny ar rifynnau blaenorol y cylchlythyr? Dewch o hyd iddynt ar ein gwefan [yma](#).

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni trwy:

cenedlaethaurdyfodol.cymru/ cenedlaethaurdyfodol2020.cymru

cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru

@futuregencymru

Sylwch fod y swyddfa ar gau ar hyn o bryd a'r ffordd orau i gysylltu â ni yw trwy ein cyfeiriad e-bost uchod.



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales